



Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd Cyfarfod at Wraidd y Mater

Cynnydd Gwaith yr Heddlu ar Gydraddoldeb Hiliol a Gwrth-hiliaeth

Cyfarfod dros Microsoft Teams

5 Ebrill 2022

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Lee Jones (LJ)	Prif Weithredwr
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lisa Morgan (LM)	Swyddog Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Claire Perrin (CP)	Swyddog Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Emma Wools (EW)	Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau
Jayne Woodward (JW)	Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
Heddlu De Cymru	
Y Dirprwy Brif Gwnstabl Rachel Bacon (RB)	Y Dirprwy Brif Gwnstabl
Martyn Jones (MJ)	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Y Prif Uwch-arolygydd Joanna Maal (JM)	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
Selina Moyo (SM)	Rheolwr Rhaglen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Yr Uwch-arolygydd Martyn Stone (MS)	Pennaeth Plismona Lleol a Sicrwydd
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis (MT)	Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

.	Eitem ar yr Agenda	Cynnwys
1.	Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Chyflwyno'r Cefndir	<p>1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau. Nododd LJ y byddai canfyddiadau'r cyfarfod at wraidd y mater yn cael eu huwchgyfeirio at Fwrdd Strategol y Comisiynydd am fod hwn yn cael ei ystyried yn faes â blaenoriaeth ar hyn o bryd.</p> <p>1.2 Cyfeiriodd EW at bwysigrwydd y gwaith ar gydraddoldeb hiliol a gwrth-hiliaeth yn unol â chyfrifoldebau ac arweinyddiaeth y Comisiynydd a'r angen i wasanaethau plismona a chyfiawnder troseddol weithio ar ailennyn hyder y cyhoedd ymhlith cymunedau ethnig leiafrifol yn Ne Cymru. Pwysleisiodd mai hwn oedd y man cychwyn ar gyfer yr hyn y byddai angen iddo fod yn gyfres o sbotoleuadau craffu parhaus ar wahanol feysydd o'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd.</p>
2.	Cyflwyniad Trosolwg o'r Cynnydd ym maes Cydraddoldeb Hiliol	<p>Cyflwyniad Trosolwg</p> <p>2.1 Rhoddodd MJ drosolwg o gynnydd gwaith yr Heddlu ar Gydraddoldeb Hiliol a Gwrth-hiliaeth. Tynnodd MJ sylw at y newidiadau diweddar i'r strwythur llywodraethu a'r adnoddau cynyddol o fewn y tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Wrth sefydlu'r strwythurau presennol sicrhawyd eu bod yn cyd-fynd â'r themâu yn strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a chynllun cyflawni'r Prif Gwnstabl.</p> <p>2.2 Rhoddodd MJ drosolwg o flaenoriaethau'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd, a oedd yn cynnwys cydlyniant cymunedol, data ar anghymesuredd a chreu gweithlu cynrychioliadol. Rhoddodd MJ y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a oedd wedi'i wneud yn erbyn pob allbwn allweddol a nododd, mewn rhai achosion, fod adroddiadau ac argymhellion wedi'u cwblhau fel rhan o waith y grŵp hil strategol o fewn Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (CJIW), a arweiniwyd gan Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau.</p> <p>2.3 Nododd MJ fod adnodd ar ffurf dangosfwrdd Gwybodaeth Fusnes wedi'i greu er mwyn dod â setiau data ym mhob maes Adnoddau Dynol at ei gilydd a llunio adroddiadau gweledol amser real, ynghyd â dangosfwrdd Pwerau Cymhellol a oedd yn cynnwys data ar 'Y Defnydd o Rym' a 'Stopio a Chwilio' er mwyn dangos lle roedd anghymesuredd i'w gael. Cyfeiriodd MJ at y ffaith bod grŵp Cynghori Annibynnol wedi'i sefydlu, a oedd yn ei gwneud yn bosibl canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghymesuredd, gan gynnwys gwyllo a thrafod deunydd fideo camerâu a wisgir ar y corff ar y cyd ag aelodau o Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PALG). Cyfeiriodd MJ at y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran ymgysylltu a chyfathrebu, gan gynnwys y ffaith bod uwch-reolwr ymgysylltu allanol newydd wedi'i benodi er mwyn datblygu a gwella'r strategaeth, gwaith cydlyniant cymunedol parhaus ar droseddau casineb, hyfforddiant, addysg a gwaith partneriaeth.</p> <p>2.4 Gwahoddodd LJ y rhai a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau a thrafod cynnwys y cyflwyniad a'r gwaith papur a oedd wedi'i rannu fel rhan o'r cyfarfod. Ystyriwyd y byddai'n well trafod popeth mewn themâu.</p>

Stopio a Chwilio

2.5 Cyfeiriodd HJJ at gyfarfod diweddar o Grŵp Atebolwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PALG) lle roedd y grŵp wedi trafod y gostyngiad diweddar mewn cyfraddau anghymesuredd ar gyfer achosion o stopio a chwilio. Roedd y grŵp wedi gofyn beth a fyddai'n cael ei ystyried yn llwyddiant yn y maes hwn, gan dybio mai sicrhau cyfradd anghymesuredd o 1:1 ar gyfer pob ethnigrwydd oedd y nod, ond nodwyd bod y cwestiwn wedi bod yn un anodd i'w ateb yn y cyfarfod. Gofynnodd HJJ sut y byddai'r heddlu yn ymateb i'r cwestiwn hwn yn gyhoeddus. Roedd yn galonogol bod cyfraddau anghymesuredd yn gostwng ond nododd fod unrhyw ostyngiad yn dangos ei bod yn amlwg bod rhywbeth wedi bod yn digwydd yn flaenorol er mwyn amlygu anghymesuredd. Teimlai ei bod yn bwysig cydnabod hyn. Roedd hefyd yn ddefnyddiol adlewyrchu ac ystyried yr hyn a oedd wedi bod yn dylanwadu ar y gostyngiad mewn cyfraddau anghymesuredd fel y gellid adeiladu ar hyn a'i wella ymhellach.

2.6 Wrth ateb y cwestiwn, cyfeiriodd MT at nodau'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Aur Stopio a Chwilio, gan gynnwys prosesau eglurder, cyfeiriad strategol a gwell ansawdd, tryloywder ac atebolrwydd. Roedd MT o'r farn y dylid canolbwyntio ar nodi swyddogion unigol a chydabod ymddygiadau sy'n peri pryder mewn perthynas â gwahaniaethu wrth stopio a chwilio aelodau o'r cyhoedd.

2.7 Nododd RB fod angen i'r heddlu barhau i weithio ar adnabod rhagfarn ddiarwybod a meithrin dealltwriaeth o'r data mewn perthynas â gwahaniaethau, gan gynnwys drwy weithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau partner i gydnabod proffil cyfansoddiad cymunedau De Cymru. Esboniodd MS fod y porth data yn dangos dadansoddiad o nifer yr achosion o stopio a chwilio ac anghymesuredd ym mhob un o ardaloedd yr heddlu a bod y porth wedi dod yn fwy soffistigedig ers trafodaethau blaenorol. Roedd hyn yn galluogi bod modd archwilio data mewn ffordd ddefnyddiol iawn.

2.8 Roedd MS o'r farn bod angen i'r heddlu ddeall y rhesymau dros y gostyngiad mewn cyfraddau yn well, gan bwysu a mesur a oedd ymddygiad swyddogion wedi newid neu a oeddent yn ymwybodol bod cyfraddau stopio a chwilio yn cael eu monitro'n ofalus. Cyfeiriodd MS at ganfyddiad y cyhoedd lle roedd cymunedau o'r farn bod swyddogion unigol yn stopio ac yn chwilio aelodau o'r cyhoedd yn rheolaidd oherwydd yr hyn roedd y cyfryngau wedi'i ddweud wrthynt. Roedd yn cytuno bod angen gwneud gwaith mewn perthynas â materion cyfathrebu ac ymddiriedaeth gan fod data'r heddlu yn dangos nad oedd hyn yn digwydd. Roedd llawer o waith wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o faterion anghymesuredd, gan gynnwys drwy sesiynau 'Let's Talk About Race' i swyddogion a staff. Er ei bod yn galonogol bod y cyfraddau wedi gostwng oherwydd dealltwriaeth well ac, felly, lai o ragfarn ddiarwybod, mae'n bosibl nad dyma'r darlun cyfan, am ei bod yn bosibl bod y gostyngiad i'w briodoli i'r ffaith bod swyddogion yn gwybod bod mwy o ffocws ar eu defnydd o bwerau stopio a chwilio. Pwysleisiodd LJ bwysigrwydd parhau i geisio nodi'r darlun cywir er mwyn sicrhau bod yr anghymesuredd yn gynaliadwy.

2.9 Nododd EW fod rhai ardaloedd daearyddol yn y data stopio a chwilio o hyd lle roedd anghysmesuredd yn llawer mwy amlwg. Gofynnodd sut y byddai hyn yn cael ei esbonio i gymunedau. Er mwyn ateb y cwestiwn, dangosodd MS sgrin lun o'r porth data i aelodau'r bwrdd a defnyddiodd ardal Castell-nedd Port Talbot fel yr enghraifft a allanolyn o ran anghysmesuredd. Y gyfradd anghysmesuredd ar gyfer pobl dduon yn yr ardal hon oedd 9.2 achos o stopio o gymharu ag un person gwyn. Fodd bynnag, o archwilio'r data a oedd yn ymwneud â hyn, gwelwyd bod hyn yn ymwneud â thri pherson du mewn blwyddyn gyfan ac roedd hyn yn dangos pa mor anodd y gallai esbonio realiti'r sefyllfa i gymunedau fod. Fodd bynnag, roedd y niferoedd bach hyn yn galluogi cynrychiolwyr yr Heddlu i fynd a chadarnhau p'un a oedd pob achos unigol o stopio aelod o'r cyhoedd yn ddilys ai peidio a byddai hyn yn sicrhau bod unrhyw achosion o'r fath o stopio aelodau o'r cyhoedd yn cael ei gynnal yn deg. Roedd hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd bellach.

2.10 Cydnabu'r Bwrdd fod hwn yn waith cadarnhaol a bod neges bwysig i'w chyfleu i'r cyhoedd ar y data presennol ar achosion o stopio a chwilio. Fodd bynnag, roedd angen cydbwysu hyn yn sensitif â'r profiadau roedd pobl yn dal i roi gwybod amdanynt.

2.11 Cyfeiriodd EW at Uned Gwahaniaethau Llywodraeth Cymru a theimlai ei bod yn bwysig sicrhau bod Heddlu De Cymru a thîm y Comisiynydd yn gweithio gyda'r uned hon i rannu data a chudd-wybodaeth a gafwyd gan bartneriaid. Roedd RB yn cytuno â hyn ac awgrymodd Lee hefyd ei bod yn bwysig bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstablaiad yn ceisio arwain y ffordd i wneud gwahaniaeth yn y maes hwn a gweithio i gyfathrebu â'r cyhoedd yn ei gylch. Cytunwyd bod arweinyddiaeth a chyfathrebu yn faterion allweddol.

2.12 Nododd HJJ fod gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned yn ardal yr heddlu yn aml yn dod ar draws pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig sy'n dweud eu bod yn cael eu stopio a'u chwilio'n rheolaidd. Cafodd hyn ei gyfleu mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf pan wnaeth y Dirprwy Gomisiynydd gyfarfod â grŵp o famau Somali a thrafod profiadau eu meibion. Yn aml, roedd yn anodd amddiffyn y data pan oedd y profiadau hyn yn cael eu cyfleu. Unwaith eto, rhannodd MS sgrin lun o'r porth data â'r grŵp, a oedd yn dangos tudalen a oedd yn dadansoddi achosion o stopio a chwilio yn ôl pobl unigol. Roedd yn dangos mai prin iawn oedd yr achosion lle roedd yr un person yn cael ei stopio fwy nag unwaith ac, unwaith eto, roedd angen cyfleu hyn yn well. Awgrymodd SG y gall aelodau o'r gymuned weithiau gymysgu achosion o stopio a chwilio ag achosion o 'stopio ac adrodd' nad ydynt yn cael eu cofnodi. Cytunwyd bod mater ehangach yn ymwneud â gwir ganfyddiadau'r gymuned, cyfleu negeseuon a rhoi gwybodaeth, yn bendant.

2.13 Pwysleisiodd MT hefyd y byddai cymryd amser i ddatrys rhai o'r materion hyn a bod sylw yn y cyfryngau nad ydyw, o bosibl, bob amser yn cyfleu'r sefyllfa wirioneddol, yn dal i gael effaith. Er mwyn delio â hyn, cydnabuwyd y rhoddid blaenoriaeth i ymgysylltu â'r grwpiau yr effeithir arnynt fwyaf. Roedd EW hefyd o'r farn y dylid defnyddio rhaglen blismona i ysgolion er mwyn rhoi gwybod i bobl ifanc am eu hawliau mewn perthynas â stopio a chwilio a'r darlun cywir o ran achosion o stopio a chwilio.

CAM GWEITHREDU 1: Yr Heddlu a thîm y Comisiynydd i ystyried gwaith addysg a gwaith ymgysylltu a fydd yn helpu i gyfleu'r negeseuon cywir i gymunedau a phartneriaid am stopio a chwilio mewn modd sensitif. Mae angen i hyn gynnwys

gwybodaeth gyfredol am ddata sydd ar gael ar hyn o bryd, hawliau mewn perthynas â stopio a chwilio a'r gwahaniaethau rhwng achos o stopio a chwilio ac achos o 'stopio ac adrodd' neu fath arall o ryngweithio â'r heddlu.

Hyfforddiant Swyddogion/Staff

2.14 Gofynnodd HJJ a oedd unrhyw hyfforddiant newydd ar hil a gwrth-hiliaeth wedi'i gyflwyno ers i'r Cynllun gael ei lunio a gofynnodd yn benodol a oedd profiadau uniongyrchol bellach yn cael eu cynnwys mewn hyfforddiant, gan fod hwn yn gam gweithredu pwysig yn y Cynllun. Nododd fod y cyflwyniad wedi nodi bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau drwy'r cwrs 'Diversity Matters: Inclusion Wins' ond nododd fod y cwrs hwn ond yn defnyddio profiadau uniongyrchol staff a swyddogion mewnol ac nad oedd yn rhoi llawer o sylw i faterion hil. Roedd angen cael mewnbyn annibynnol allanol o hyd a sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cyrraedd y bobl a oedd yn llai gwybodus am y materion er mwyn annog newid mewn agweddau a diwylliant. Gofynnodd CP hefyd a oedd y gwerthusiad a ddilynodd y sesiynau 'Lets Talk About Race' yn cael ei ddefnyddio i lywio hyfforddiant mewn perthynas â chymau gweithredu cadarnhaol yn y dyfodol, gan fod y defnydd o gamau gweithredu cadarnhaol yn aml yn cael ei gamddechongli gan swyddogion a staff mewnol.

2.15 Roedd RB o'r farn nad oedd proses ddigon clir ar waith eto er mwyn mynd i'r afael â mater calonnau, meddyliau a diwylliant ynglŷn â'r mater hwn ond nododd fod cynllun o weithgarwch. Roedd newid diwylliant hefyd wedi'i gydnabod fel mater a oedd wedi'i ychwanegu at Gofrestr o Ansicrwydd a Chofnodion o Faterion y Bwrdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i ystyried pan gamau yn union roedd angen eu cymryd yn y maes hwn a pha ganlyniadau roedd eu hangen er mwyn newid ymddygiad.

CAM GWEITHREDU 2: Yr Heddlu i roi diweddariad ar y gweithgarwch sy'n cael ei gynllunio er mwyn cyflawni newid diwylliannol mewn perthynas â gwrth-hiliaeth, gan gynnwys pa ganlyniadau y bydd yr heddlu yn ceisio eu cyflawni.

2.16 Nododd MS fod angen cynnwys profiadau uniongyrchol mewn mwy o gyrsiau hyfforddi o hyd ond bod hyn wedi'i lesteirio gan bandemig Covid-19 a'r defnydd o hyfforddiant ar-lein. Yn hytrach nag ystyried ffyrdd o ychwanegu cyrsiau hyfforddi gorfodol at raglen hyfforddiant a oedd eisoes yn brysur, teimlai y byddai'n bwysig defnyddio'r 5 diwrnod hyfforddi craidd y flwyddyn i swyddogion fel ffordd o gynnwys diwrnod ar wrth-hiliaeth a braint pobl Wyn ac ati. Roedd yn bwriadu mynd i'r afael â hyn yn ystod y flwyddyn.

2.17 Cadarnhaodd MJ nad oedd yn ymwybodol bod y cwrs 'Diversity Matters: Inclusion Wins' ond yn cynnwys profiadau uniongyrchol mewnol a chydabu fod hwn yn fater y bydd angen mynd i'r afael ag ef yn unol â'r ymrwymadau yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd.

2.18 Cydnabu JW yr effaith y byddai pandemig Covid-19 wedi'i chael ar sicrhau bod pobl yn cael hyfforddiant wyneb yn wyneb ond awgrymodd y gellid creu llyfrgell fideo o fewnbynau personol er mwyn iddi allu cael ei defnyddio mewn llawer o gyrsiau. Roedd EW yn cytuno ac awgrymodd hefyd y dylai allbynau profiadau uniongyrchol (yn bersonol neu ar fideo)

ddod, yn ddelfrydol, o bobl yn yr ardaloedd lle roedd yn cael ei ddarparu er mwyn iddo gael effaith wirioneddol a bod yn wirioneddol ystyrlon.

2.19 Gofynnodd JW a allai atgyfeiriadau at hyfforddiant gael eu defnyddio hefyd fel ymyriad pan na fyddai swyddogion yn cyrraedd y safonau disgwylidig o ran eu hymddygiad a'u hagwedd. Roedd MS o'r farn bod hyn yn dechrau digwydd i ryw raddau a bod cofnodion o hyfforddiant yn cael eu defnyddio at y diben hwn.

2.20 Roedd LJ o'r farn bod nodi camau gweithredu clir ar y cynlluniau a oedd i'w cyflawni yn y maes hyfforddiant yn bwysig ac y dylid ailystyried y mater hwn. Pwysleisiodd EW pa mor galonogol oedd clywed y byddai diwrnodau hyfforddi craidd yn cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant gwrth-hiliaeth, gan nodi ei fod yn edrych ymlaen at glywed y manylion am hynny. Nododd hefyd fod pob partner yn y sector cyhoeddus yn awyddus i fuddsoddi mwy mewn hyfforddiant yn ymwneud â hil ac y gallai fod cyfleoedd i rannu adnoddau ac ystyried y ffordd orau o gyflawni ar y cyd. Cytunwyd y byddai'r materion hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn dilyn y cyfarfod.

CAM GWEITHREDU 3: Yr Heddlu i roi diweddariad ar y ffordd y caiff diwrnodau hyfforddi'r heddlu eu neilltuo ar gyfer gwrth-hiliaeth yn ystod y flwyddyn.

CAM GWEITHREDU 4: Yr Heddlu a thîm y Comisiynydd i ystyried opsiynau ar gyfer hyfforddiant amlasiantaethol mewn perthynas â gwrth-hiliaeth er mwyn rhannu adnoddau a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.

Rhaglen Hyfforddiant Cychwynnol Swyddogion

2.21 Cyfeiriodd HJJ at y diweddariadau i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd a oedd yn ymwneud â'r Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona (PEQF) i swyddogion a gofynnodd a gyfeiriwyd at ganlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Gofynnodd a oedd unrhyw ragfarn wedi'i nodi yn y prosesau mynediad ac astudio am fod hyn yn bwysig iawn i'w ddeall er mwyn ein cymunedau. Cadarnhaodd RB ei bod wedi gofyn yn ddiweddar am i ragor o waith gael ei wneud mewn perthynas â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn y maes hwn am nad oedd wedi'i ddatblygu ddigon, yn ei barn hi. Roedd angen ystyried newidiadau ar gyfer pobl a oedd yn dymuno astudio'n rhan amser ac er mwyn cynnig cymaint o gyfleoedd â phosibl i ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys yn ystod y broses gwneud cais. Gofynnodd LJ am ddiweddariad pan fyddai'n barod.

CAM GWEITHREDU 5: Canfyddiadau a chanlyniadau'r fersiwn ddiwygiedig o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona Addysg (PEQF) i'w rhannu â thîm y Comisiynydd pan fyddant ar gael.

Fetio

2.22 Hysbysodd MS aelodau'r Bwrdd fod cyflwyno'r Panel Apeliadau Fetio, a oedd wedi'i sefydlu bellach, yn faes pwysig lle roedd cynnydd wedi'i wneud o ran lleihau rhagfarn mewn prosesau recriwtio. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl i

ymgeiswyr â nodweddion gwarchoddedig a oedd wedi methu'r broses fetio gael eu hystyried gan banel i weld a oedd unrhyw ragfarn bosibl yn y broses o wneud y penderfyniad hwnnw. Gofynnodd HJJ ai atgyfeiriad awtomatig oedd hwn neu a oedd angen i unigolion apelio a gofyn am gael eu hatgyfeirio at y panel eu hunain. Cadarnhawyd mai atgyfeiriad awtomatig oedd hwn ac y dylai hefyd fod yn gymwys i wirfoddolwyr.

Troseddau Casineb

2.23 Nododd LJ fod cyfraddau canlyniadau cadarnhaol a chyfraddau boddhad dioddefwyr wedi gostwng mewn perthynas â Throseddau Casineb a phwysleisiodd y byddai angen mynd i'r afael â hyn.

2.24 Gofynnodd HJJ am ddiweddariad ysgrifenedig gan yr Heddlu ar ganlyniadau'r adolygiad o Droseddau Casineb, y cyfeiriwyd atynt yn y ddogfennaeth ar gyfer cyfarfod y Bwrdd. Y gobaith oedd y byddai hyn yn gallu dangos rhywfaint o'r cynnydd a oedd yn debygol o fod yn cael ei wneud yn y maes hwn.

2.25 Gofynnodd HJJ hefyd a oedd y staff yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael eu huwchgilio mewn perthynas â delio â Throseddau Casineb y rhoddwyd gwybod amdanynt a'u cofnodi yn unol â'r ymrwymiad yn y Cynllun. Nododd MJ fod arweinydd yr Heddlu yn gweithredu ar bob un o'r argymhellion yn yr adolygiad o Droseddau Casineb, gan gynnwys hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol i staff sy'n delio â galwadau i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a swyddogion Troseddau Casineb. Cadarnhaodd MJ hefyd y byddai canlyniadau'r adolygiad yn cael eu rhannu â thîm y Comisiynydd pan fyddai'r Heddlu wedi'u cael.

CAM GWEITHREDU 6: Yr Heddlu i roi diweddariad ysgrifenedig ar ganlyniadau'r adolygiad o Droseddau Casineb, y cyfeiriwyd atynt yn y ddogfennaeth ar gyfer cyfarfod y Bwrdd.

2.26 Gofynnodd HJJ a oedd yr Heddlu wedi gwneud unrhyw gynnydd o ran gallu rhannu categorïau o Droseddau Casineb ar NICHE yn isgategorïau yn unol â'r ymrwymiad yn y Cynllun. Roedd aelodau o'r gymuned yn dal i synnu a theimlo'n rhwystredig nad oedd yn bosibl dadansoddi troseddau casineb ar sail crefydd, er enghraifft, yn ganrannau ar gyfer troseddau casineb ar sail Islamoffobia. Nododd HJJ fod problemau technolegol yn gysylltiedig â'r cais hwn ond pwysleisiodd fod y ceisiadau cychwynol i'r darparwyr meddalwedd wedi'u cyflwyno dros ddegawd yn ôl a gofynnodd a oedd yn bryd uwchgyfeirio'r mater hwn neu bersawdio heddluoedd eraill i wneud yr un peth er mwyn gwneud cynnydd yn y maes hwn. Cadarnhaodd CW ei bod yn aelod o grŵp cenedlaethol lle y gellid mynd i'r afael â'r mater hwn. Cytunodd i wneud hyn yn y cyfarfod nesaf a chadarnhaodd hefyd y byddai'n ystyried dulliau amgen o ddatrys problemau y gallai heddluoedd eraill fod yn eu defnyddio mewn perthynas â'r gweithgarwch cofnodi hwn rhag ofn bod unrhyw beth arall y gallem ei ystyried. Diolchwyd i CW am yr awgrym hwn.

CAM GWEITHREDU 7: CW i uwchgyfeirio mater gallu cyflwyno isgategorïau o Droseddau Casineb ar NICHE yn ystod y cyfarfod grŵp cenedlaethol nesaf. CW i gysylltu â heddluoedd eraill i weld pa ddulliau amgen o ddatrys problem y gellid eu hystyried.

3.	Casgliadau a Materion i'w Huwchgyfeirio	<p>3.1 Rhoddodd LJ grynodedb o drafodaethau'r Bwrdd. Cydnabu fod cryn dipyn o weithgarwch cadarnhaol yn mynd i mewn i'r gwaith yn y Cynllun ond fod angen rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau. Efallai y bydd angen ystyried hyn ymhellach ac roedd yn debygol y byddai'n fyddiol diweddarau'r Cynllun a'i ganlyniadau.</p> <p>3.2 Roedd EW yn cytuno â LJ ac roedd o'r farn bod angen diweddarau'r Cynllun. Roedd hefyd o'r farn y dylai'r Fframwaith Canlyniadau drafft a ddatblygwyd gan HJJ gael ei gwblhau a'i ddefnyddio os nad oedd wedi cael ei gwblhau eisoes. Cadarnhaodd RB fod gwaith ar ganlyniadau a dangosyddion wedi dechrau ond fod angen ei gadarnhau a'i rannu â thîm y Comisiynydd.</p> <p>3.3 Diolchodd LJ ac EW i bawb am eu cyfraniadau gonest yn ystod y cyfarfod a chadarnhaodd ei bod yn anochel y byddai angen ailystyried sawl maes oherwydd eu natur gymhleth. Byddai crynodedb o'r materion allweddol a gododd yn cael ei uwchgyfeirio at Fwrdd Strategol y Comisiynydd.</p>
4.	Unrhyw fater arall	<p>4.1 Cadarnhaodd LJ y byddai'r canfyddiadau ac unrhyw argymhellion o'r cyfarfod at wraidd y mater yn cael eu rhannu ag aelodau'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf ac y byddai'r cofnodion yn cael eu rhannu ymlaen llaw.</p> <p>4.2 Nid oedd unrhyw fater arall.</p>

Tabl Camau Gweithredu

Nifer	Cam Gweithredu	Perchennog
1.	Yr Heddlu a thîm y Comisiynydd i ystyried gwaith addysg a gwaith ymgysylltu a fydd yn helpu i gyfleu'r negeseuon cywir i gymunedau a phartneriaid am stopio a chwilio mewn modd sensitif. Mae angen i hyn gynnwys gwybodaeth gyfredol am ddata sydd ar gael ar hyn o bryd, hawliau mewn perthynas â stopio a chwilio a'r gwahaniaethau rhwng achos o stopio a chwilio ac achos o 'stopio ac adrodd' neu fath arall o ryngweithio â'r heddlu.	Yr Heddlu a thîm y Comisiynydd
2.	Yr Heddlu i roi diweddariad ar y gweithgarwch sy'n cael ei gynllunio er mwyn cyflawni newid diwylliannol mewn perthynas â gwrth-hiliaeth, gan gynnwys pa ganlyniadau y bydd yr heddlu yn ceisio eu cyflawni.	Yr Heddlu

3.	Yr Heddlu i roi diweddariad ar y ffordd y caiff diwrnodau hyfforddi'r heddlu eu neilltuo ar gyfer gwrth-hiliaeth yn ystod y flwyddyn.	Heddlu
4.	Yr Heddlu a thîm y Comisiynydd i ystyried opsiynau ar gyfer hyfforddiant amlasiantaethol mewn perthynas â gwrth-hiliaeth er mwyn rhannu adnoddau a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.	Yr Heddlu a thîm y Comisiynydd
5.	Canfyddiadau a chanlyniadau'r fersiwn ddiwygiedig o'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoleb ar y Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona (PEQF) i'w rhannu â thîm y Comisiynydd pan fyddant ar gael.	Heddlu
6.	Yr Heddlu i roi diweddariad ysgrifenedig ar ganlyniadau'r adolygiad o Droseddau Casineb, y cyfeiriwyd atynt yn y ddogfennaeth ar gyfer cyfarfod y Bwrdd.	Heddlu
7.	CW i uwchgyfeirio mater gallu cyflwyno is-gategoriâu o Droseddau Casineb ar NICHE yn ystod y cyfarfod grŵp cenedlaethol nesaf. CW i gysylltu â heddluoedd eraill i weld pa ddulliau amgen o ddatrys problem y gellid eu hystyried.	Carol Woodward